# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol
## Ionawr 2020 - Rhagfyr 2020
### Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd –** Mark Isherwood AC

**Enwau'r Aelodau Cynulliad eraill**
Siân Gwenllian AC
Lynne Neagle AC
Michelle Brown AC

**Ysgrifennydd**:
Zoe Richards
Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Caerdydd CF14 5GG

**Aelodau:**
Rhian Davies, Anabledd Cymru
Louise McGrath, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion
Sara Moseley, Mind Cymru

**Dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd:**
26 Chwefror 2020 (Cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth)
19 Mai 2020
2 Gorffennaf 2020
22 Hydref 2020

Cofnodion y
Grwpiau Trawsbleidiol ar Anabledd ac Awtistiaeth
a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020, 12.15-1.15pm
yn Adeilad y Pierhead, Stryd y Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 4PZ

Cadeiriwyd gan Mark Isherwood AC

1. **Croeso a chyflwyniadau.**
Agorodd Mark Isherwood (MI) y cyfarfod ar y cyd, a chroesawodd bawb o'r ddau Grŵp Trawsbleidiol.

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf.**
Cymeradwywyd cofnodion y ddau gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol diwethaf fel cofnodion cywir.

**Cynigiwyd gan**: Jeff Price (Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth)
**Eiliwyd gan**: Mark Isherwood
Cwblhawyd y camau gweithredu.

3. **Cyflwyniad: Prosiect Engage to Change – Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gan Dr Steve Beyer, Prifysgol Caerdydd**

Mae Engage to Change yn brosiect pum mlynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i helpu pobl ifanc sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i ennill cyflogaeth. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn arwain y prosiect tra bod y partneriaid ELITE ac asiantaethau cyflogaeth dan gymorth Agoriad Cyf yn darparu hyfforddiant swyddi, lleoliadau gwaith â thâl a swyddi â thâl mewn gweithleoedd cyffredin. Fe'u cefnogir gan hunan-eiriolwyr o Bobl yn Gyntaf Cymru, ac mae elfen ymchwil y prosiect yn cael ei chynnal gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd.

Rhoddodd Dr Steve Beyer (SB), y Prif Ymchwilydd ar gyfer Tîm Gwerthuso Engage to Change ym Mhrifysgol Caerdydd, gyflwyniad ar gynnydd y prosiect a'r gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

Mae Engage to Change wedi dangos y gellir goresgyn llawer o'r heriau y mae pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn eu hwynebu drwy gyflogaeth dan gymorth gan ddefnyddio hyfforddwr swyddi. Gall y model hwn helpu pobl i ddod o hyd i swydd trwy:

- Dreulio amser yn deall diddordebau pobl o ran swyddi, yr hyn maen nhw'n ei wneud yn dda a'r math o swydd ac amgylchedd gwaith sydd eu hangen arnyn nhw.
- Defnyddio lleoliadau gwaith a sesiynau blasu i helpu pobl i benderfynu beth maen

nhw eisiau ei wneud a pha gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnyn nhw.

- Negodi a dod o hyd i swydd sy'n addas ar gyfer talentau ac anghenion yr unigolyn, nid dim ond unrhyw swydd sydd ar gael.
- Hysbysu a chefnogi cyflogwyr i sicrhau bod cyfweliadau yn hygyrch, cynnal sesiynau cynefino a goruchwylio gweithwyr.
- Cynllunio'n dda gyda phobl a theuluoedd, a helpu gyda budd-daliadau lles i sicrhau y byddant yn well eu byd yn y gwaith.

Hefyd, efallai y bydd angen help ar bobl i ddysgu a chadw swydd trwy:

- Gael hyfforddwr swydd gyda nhw yn y gweithle i'w helpu i ddysgu sut i wneud y swydd ac i ganfod eu lle.
- Torri tasgau i lawr yn gamau bach a darparu dull systematig o ddysgu tasgau swydd.
- Defnyddio awgrymiadau yn fedrus a lleihau'r rhain dros amser nes bod y person yn gallu cyflawni'r swydd yn annibynnol.
- Helpu pobl i gael achrediad yn y gwaith lle y bo modd.
- Helpu pobl i deimlo eu bod yn perthyn yn gymdeithasol yn y gwaith a helpu eu cydweithwyr/goruchwylwyr i gyd-dynnu’n dda â nhw.

Hyd at fis Rhagfyr 2019, mae'r model hwn wedi galluogi partneriaid prosiect Engage to Change i gefnogi 284 o bobl ifanc i gael lleoliadau gwaith â thâl hyd at 6 mis o hyd, gyda 166 o'r lleoliadau hyn yn arwain at swyddi â thâl. Mae 77 y cant o'r swyddi hyn wedi cael eu cynnal am o leiaf dri mis. O ystyried pa mor isel yw'r cyfraddau cyflogaeth cenedlaethol ar gyfer y bobl ifanc hyn, mae'r ffigurau hyn yn galonogol iawn.

Mae’r prosiect wedi dangos bod gan bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig y potensial i weithio os oes ganddynt y swydd gywir a’r cymorth cywir. Er mwyn llwyddo, mae angen ymrwymiad i’r hyn a ganlyn:

- Bod y gwaith yn waith go iawn a fyddai'n cael ei wneud gan bobl eraill
- Gweithio mewn lleoliadau gwaith cyffredin ochr yn ochr â chydweithwyr a goruchwylwyr heb anabledd
- Cyflogau go iawn ar gyfraddau cyflog arferol y swydd
- Paru talentau ac anghenion pobl â'r swyddi y byddant yn eu gwneud
- Cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant a chymorth ar y safle
- Cyflogwyr yn gwneud eu safonau gwaith yn glir ac yn helpu gweithwyr i weithio i'r safonau hyn.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw bob amser yn bosibl dod o hyd i swydd â thâl i rywun. Gall hyn fod oherwydd nad yw'n economaidd hyfyw i rai pobl neu oherwydd na allwn ddod o hyd i'r swydd iawn ar gyfer talentau neu anghenion yr unigolyn hwnnw, neu, yn syml, ni allwn ddarparu'r cymorth cywir ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi pam na allwn gael swyddi i rai pobl. Nid yw'n deg dweud na all person anabl weithio pan mai’r rheswm mewn gwirionedd am hyn yw diffyg cefnogaeth neu amgylchiadau addas.

Mae cyflogwyr sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect wedi cydnabod nad cyflawni tasgau yw'r unig ffordd y gall pobl gyfrannu'n llwyddiannus at eu busnesau; gallant hefyd

gyfrannu at gydlyniant yn y gweithle a chynhyrchiant gweithwyr eraill. Mae'r prosiect wedi dangos y gall darparu amser ychwanegol i hyfforddi a chefnogi pobl anabl gynnig buddion clir i gyflogwyr, gan gynnwys gweithwyr dibynadwy ac ymroddedig, gweithlu mwy amrywiol a delwedd gadarnhaol ar gyfer cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Mae angen i'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect Engage to Change gael eu hymgorffori mewn polisi ac arfer ledled Cymru:

- Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydnabod buddion cyflogaeth gynhwysol i fusnesau, yn gymdeithasol ac yn economaidd, a hyrwyddo'r rhain mor eang â phosibl.
- Mae angen deall sut olwg sydd ar gymorth wedi'i deilwra a beth yw'r gost.
- Mae angen i gyflogaeth dan gymorth a hyfforddiant swyddi gael eu hariannu'n ddigonol a'u hymgorffori yn ddelfrydol mewn deddfwriaeth fel model cymorth wedi'i deilwra ar gyfer cyflogaeth. Er enghraifft, drwy sefydlu gwasanaeth hyfforddiant swyddi cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Dylid defnyddio Mynediad i Waith cymaint â phosibl fel cyllideb cymorth hyblyg a all helpu i greu sefyllfa gydradd ar gyfer pobl anabl.
- Dylid creu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith â chymorth wedi'i deilwra tra bod pobl ifanc yn dal i fod mewn addysg, gyda'r bwriad o drosglwyddo i gyflogaeth â thâl yn y dyfodol.

Mae briff Dr Beyer o'r cynnydd ar gael ar wefan Engage to Change yn Saesneg ac yn Gymraeg: http://www.engagetochange.org.uk/article/engage-to-change-progress-so-far-and-what-weve-learned/.

Sylwadau:
Wrth ymateb i gwestiwn, eglurodd SB na ellir defnyddio cyllid Mynediad i Waith i ariannu hyfforddiant swyddi gan nad yw'n talu am gymorth cyn cyflogaeth.

Esboniodd hefyd, er ei fod yn cytuno y dylai hyfforddiant sgiliau ddechrau tra bod pobl ifanc yn dal i fod mewn addysg, mae natur anabledd dysgu a/neu awtistiaeth pobl yn golygu nad yw sgiliau bob amser yn drosglwyddadwy i'r gweithle ac felly mae'n bwysig bod hyfforddiant swyddi ar gael ar y safle.

**4. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru – Cymorth i gwsmeriaid awtistig, cyflwyniad gan Caroline Noott a Lynda Ormerod**

Rhoddodd Caroline Noot (CN) a Lynda Ormerod (LO), Prif Gynghorwyr Cyflogaeth Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau, gyflwyniad ar y cyd ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ledled Cymru mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gefnogi cwsmeriaid awtistig.

O 1 Ebrill 2019 ymlaen, cyflwynwyd rôl Prif Gynghorydd Cyflogaeth Anabledd (DEAL) ar gyfer prosiect 2 flynedd fel rhan o 'Bapur Gwyrdd' y Llywodraeth i gefnogi cwsmeriaid ag anableddau a chyflyrau iechyd i fynd yn ôl i fyd gwaith.

Mae'r rôl yn canolbwyntio ar reoli tîm o Gynghorwyr Cyflogaeth Anabledd sy’n uwchsgilio ac yn cefnogi Hyfforddwyr Gwaith i ddarparu gwasanaeth rhagorol i hawlwyr sydd â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i ddod o hyd i gyflogaeth a'i chadw.

Soniodd CN a LO am ddatblygu cymorth awtistiaeth i gwsmeriaid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ne Cymru:

- Datblygu ac ehangu’r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn ne-orllewin Cymru.
- Creu dull safonol o ymdrin ag awtistiaeth ar draws pob Canolfan Waith.
- Sicrhau bod y modd y darperir gwasanaethau yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid awtistig.
- Cyflwyno oriau tawel mewn digwyddiadau a mannau tawel mewn Canolfannau Gwaith.
- Adeiladu perthnasoedd â sefydliadau allweddol sy'n cefnogi'r agenda hon.
- Creu gwaith ar draws rhanbarthau a chlybiau cymdeithasol i gefnogi mynediad at sgiliau cymdeithasol a sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer cwsmeriaid awtistig.

Fe wnaethant hefyd drafod y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer staff:

- Sesiynau namau cudd wedi’u darparu gan seicolegwyr
- Hyfforddiant ar gyfer pob Ymgynghorydd Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'i gynnwys yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm a chenedlaethol
- Cyflwyno set dysgu gweithredol gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar gyfer cynghorwyr cyflogaeth
- Bydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cefnogi’r Adran Gwaith a Phensiynau i adolygu technegau holi i helpu i wneud i bob ymyriad â chwsmeriaid awtistig gyfrif.
- Mae Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau yn gweithredu fel Llysgenhadon Awtistiaeth mewn swyddfeydd ac yn hyrwyddo'r agenda o fewn eu safleoedd.
- Mae IAS yn cynnal cynadleddau achosion ymgynghori proffesiynol ar gyfer Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau a Hyfforddwyr Gwaith.

Yna aethant ymlaen i siarad am ddatblygiadau tebyg yng Ngogledd Cymru:

- 'Unlocking Doors' – rhaglen 12 wythnos yng Nghanolfan Waith Llangefni ar Ynys Môn ar gyfer pobl ifanc awtistig. Wedi'i ddylunio a'i ddarparu gan Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau, mae'n cynnwys ysgrifennu

ceisiadau, sgiliau cyfweliad, magu hyder, rhwydweithio a'r cyfle i gwrdd â chyflogwr.

- Mae Canolfan Byd Gwaith Wrecsam yn cychwyn hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth gyda'r nod o sicrhau achrediad gan ASDinfo Cymru. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn yr holl safleoedd yng ngogledd Cymru a chanolbarth Cymru.
- Bwriedir cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth hefyd i'r Canolfannau Gwasanaeth Credyd Cynhwysol yn Wrecsam a Bangor i ehangu gwybodaeth a gofynion cwsmeriaid awtistig sy'n cysylltu â staff dros y ffôn a chyfnodolion.

Gorffennodd CN a LO trwy egluro bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynnal hunanasesiad yn ddiweddar gan edrych ar:

- Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff
- Amgylchedd y Ganolfan Waith
- Partner a chyflogwr yn gweithio gyda'i gilydd
- Profiadau cwsmeriaid.

Mae’r canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod rhywfaint o waith i'w wneud yn yr holl feysydd uchod ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio tuag at lenwi’r bylchau ledled Cymru. Maent yn gweithio gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ar lefel genedlaethol i ddatblygu dull achredu yn benodol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau gan nad ydynt yn gallu gweithio tuag at Statws Cyfeillgar i Awtistiaeth a gwneud cais amdano ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, maent yn ymdrechu i gyrraedd y safonau a nodwyd gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i sicrhau y darperir y gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid ar y sbectrwm awtistig.

Sylwadau:
Codwyd pryderon ynghylch y dull 'safonedig' sy'n cael ei ddefnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r angen am wasanaeth sy’n canolbwyntio mwy ar y person i ddiwallu anghenion unigolion. Soniwyd hefyd y gall hyfforddiant ASDInfo ddarparu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth ond na fyddai’n ddigonol i alluogi staff i gefnogi llawer o bobl awtistig i gael gwaith. Dylai hyfforddiant fod nid yn unig ar gyfer staff sy’n wynebu cwsmeriaid ond hefyd staff y swyddfa gefn a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ac ati.

Esboniodd CN a LO mai'r nod oedd cyflawni safon ofynnol ar draws pob safle i wella mynediad ar gyfer pobl awtistig e.e. hyfforddiant staff, yr amgylchedd, cyfathrebu, addasiadau ac ati. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd dull sy’n canolbwyntio ar y person ar gael i fodloni anghenion unigol.

## 5. Adroddiad Mynediad i Waith gan Gyngor Cymru i’r Deillion – Owen Williams

Rhoddodd Owen Williams (OW) grynodeb o adroddiad Cyngor Cymru i’r Deillion ‘How Accessible is Access to Work for people with sight loss in Wales? 3 years on’. Mae'r

adroddiad yn myfyrio ar y cynnydd ers yr adroddiad diwethaf yn 2016, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion blaenorol ac ychwanegu sawl argymhelliad newydd neu ddiwygiedig. Esboniodd OW, er bod cefnogaeth dda iawn ar y cyfan i'r rhaglen Mynediad i Waith ymhlith pobl anabl, cyflogwyr a sefydliadau'r trydydd sector, roedd nifer o faterion yn dal i gael eu codi gan bobl ddall a rhannol ddall wrth ddefnyddio’r gwasanaeth.

Mae pum thema yn yr adroddiad:

1. Cyswllt â chleientiaid
2. Darparu gwybodaeth
3. Sgiliau a gwybodaeth ymgynghorwyr
4. Asesiadau
5. Taliadau, adolygiadau a chyllidebau wedi'u personoli.

Mae’r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys:

- Ailbenodi ymgynghorwyr a enwir
- Mwy o sensitifrwydd o ran hyblygrwydd a chynaliadwyedd trefniadau contract
- Cyfathrebu gwell rhwng adrannau
- Darparu gwybodaeth hygyrch
- Diogelu urddas a chyfrinachedd hawlwyr
- Gwella sgiliau a gwybodaeth ymgynghorwyr
- Adolygu'r polisi ar dystiolaeth feddygol ar gyfer adnewyddu, yn enwedig ar gyfer cyflyrau/namau gydol oes.
- Cynnal asesiadau yng gweithle unigolyn, nid dros y ffôn.

Hefyd, tynnodd OW sylw at effaith oedi wrth brosesu taliadau. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar rai defnyddwyr y gwasanaeth ac ar y berthynas rhyngddynt a'u gweithwyr cymorth. Hoffai defnyddwyr y gwasanaeth weld system ‘yn ôl yr angen’ yn cael ei chyflwyno i dalu costau wrth aros i daliadau gael eu prosesu.

Mae'n destun pryder mawr bod swydd gan 1 o bob 3 o bobl â nam ar eu golwg 10 mlynedd yn ôl ond bellach mae'r ffigur wedi gostwng i ddim ond 1 o bob 4. Dylai Mynediad i Waith helpu pobl anabl i weithio, nid cael ei ystyried yn rhwystr arall.

Mae angen i ni wneud mwy i gynyddu nifer y bobl â nam ar eu golwg sydd mewn cyflogaeth trwy hyrwyddo'r cynllun, fel y manylir yn Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw’n Annibynnol. Er nad oes unrhyw un o swyddogaethau Mynediad i Waith wedi'u datganoli i Gymru, gallai Llywodraeth Cymru, yn ei dyhead i gynyddu nifer y bobl anabl mewn cyflogaeth, gyfrannu at ddylanwadu ar newid a gwelliant, fel y manylir yn yr adroddiad.

Sylwadau:

Dywedodd MI fod ei ferch hynaf wedi cael cymorth drwy Fynediad i Waith a bod hynny wedi newid ei bywyd.

Dywedwyd ei fod yn gatalydd i gyflogaeth pan mae'n gweithio'n dda ond mae'n rhaid ei deilwra. Hefyd, roedd y cynllun yn gweithio'n well pan fu un pwynt cyswllt.

Gofynnodd MI a godwyd pryderon ynghylch pobl hunangyflogedig sy'n defnyddio'r cynllun. Dywedodd OW fod pryderon wedi cael eu codi ond mae cael tîm dynodedig sy'n cefnogi pobl hunangyflogedig yn unig wedi bod yn fuddiol gan y bu modd adeiladu perthnasoedd ar lefel fwy personol.

## 6. Cyllid trydydd sector – Owen Williams

Esboniodd OW fod newidiadau i gyllid y trydydd sector yng Nghymru wedi cael effaith sylweddol ar gyrff ymbarél fel Cyngor Cymru i'r Deillion, Anabledd Cymru ac Anabledd Dysgu Cymru. Ers disodli Grant Adran 64 â'r Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2016, ni all sefydliadau'r trydydd sector wneud cais am gyllid craidd mwyach, dim ond cyllid prosiect. Mae symud i ffwrdd o gyllid craidd i gyllid prosiect wedi creu problemau sylweddol i'r sefydliadau ymbarél yng Nghymru, gan nad yw'n briodol ailddyfeisio'r sefydliad i ddiwallu'r cynllun cyllido prosiect. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i gyrff ymbarél barhau i ddarparu gwybodaeth hanfodol a chyfleoedd rhwydweithio i aelodau a rhanddeiliaid, yn ogystal â darparu llais strategol ar y cyd.

Mae hefyd yn golygu bod y sefydliadau hyn yn aml yn gorfod cystadlu â'u haelodau eu hunain am gyllid, a all yn amlwg fod yn broblemus iawn. Dywedodd MI ei fod yn ymwybodol bod yn rhaid i lawer o sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr yn lleol ac yn rhanbarthol gystadlu am gontractau bellach. Maent yn aml mewn sefyllfa lle nad ydynt yn cael unrhyw arian statudol ond maent yn dal i gael atgyfeiriadau gan bwynt mynediad sengl yr awdurdod lleol ac maent eisiau helpu ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny.

Mae'r newidiadau cyllido hyn yn bygwth cynaliadwyedd sefydliadau o'r fath a dyna pam rydym yn galw am ddychwelyd i'r model cyllido craidd sy'n sicrhau bod y sector yn cael ei gydgysylltu'n strategol a bod lleisiau pobl anabl yn cael eu clywed. Gallai cyllid craidd eistedd ochr yn ochr â chyllid prosiect fel adnodd cyllido ychwanegol.

Dywedodd MI ei fod wedi dyfynnu yn ddiweddar o lythyr gan Gyngor Cymru i'r Deillion ynghylch pryderon cyllido yn y Siambr. Diolchodd OW i'r Cadeirydd am ei gefnogaeth.

## 7. Unrhyw fater arall

### Cwymp Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru

Codwyd pryderon ynghylch colli cyllid ac arbenigedd ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth i

bobl anabl yn dilyn ail gwymp Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru. Ceir risg o golli gwybodaeth ac arbenigedd lleol os dim ond sefydliadau cenedlaethol mawr sy'n gallu cystadlu am gontractau.

### Adolygiad gofal cenedlaethol o ddarpariaeth ysbytai anabledd dysgu y GIG

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad sy'n edrych ar ofal a thriniaeth pobl sy'n gleifion mewnol yn ysbytai anabledd dysgu y GIG. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma: https://llyw.cymru/adolygiad-gofal-cenedlaethol-o-ddarpariaeth-ysbytai-anabledd-dysgu-y-gig.

### Ymgynghoriadau cyfredol:

- Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion (yn cau ar 20 Ebrill)
- Cynllun cyflawni ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu (23 Ebrill)
- Strategaeth economi gylchol (3 Ebrill)

## 8. Y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

### Camau i'w cymryd:

**Cam gweithredu 1**: Ysgrifennu i Lywodraeth Cymru i ofyn am gefnogaeth ar gyfer y model hyfforddiant swyddi.

**Cam gweithredu 2**: Ysgrifennu at Weinidog y DU ynghylch Mynediad i Waith, i ddathlu'r cynnydd a wnaed ers 2016 ond hefyd i godi'r materion yn yr adroddiad newydd.

**Cam 3**: Ailedrych ar y sylfaen dystiolaeth ynghylch problemau parhaus gydag asesiadau PIP a cheisiadau DLA cyn ysgrifennu at Weinidog y DU.

**Cam 4**: Ysgrifennu i Lywodraeth Cymru am Fynediad i Waith a rhaglenni cyflogadwyedd.

**Cam 5**: Ysgrifennu i Lywodraeth Cymru ynglŷn â phwysigrwydd cyllid craidd yn y trydydd sector.

**Cam 6**: Ysgrifennu i Lywodraeth Cymru am yr hyn sy'n digwydd nesaf yn dilyn ail gwymp Cynllun Cefnogi Swyddi Cymru.

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

**Cadeiriwyd gan**: Mark Isherwood AS

19 Mai 2020, 4pm-5pm

Cyfarfod rhithwir

1. Croeso a chyflwyniadau:

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp i gyfarfod rhithwir cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd.

Dywedodd MI wrth y grŵp ei fod wedi cael canllawiau o ran y pandemig Covid-19 a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion gan Jane Hutt AS, sef canllaw ar y newidiadau a wnaed i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan Ddeddf Coronafeirws 2020.

CYFLWYNIADAU:

1. Llacio'r cyfyngiadau symud a'r effaith ar bobl anabl – Rhian Davies, Anabledd Cymru.

Tynnodd RD sylw at bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn rhan o'r broses gynllunio wrth i Gymru lacio'r cyfyngiadau symud yn sgil y Coronafeirws, er mwyn sicrhau na wahaniaethir ymhellach yn erbyn pobl anabl. Cyfeiriodd RD yn benodol at ddwy o ddogfennau Llywodraeth Cymru, sef **'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws'** a **'Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi'.**

O ran y ddogfen 'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws', nododd RD fod dogfen Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau bod materion ac ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio'n bennaf at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mwyn cefnogi pobl anabl i'r graddau eithaf, mae angen dwyn cydraddoldeb a hawliau dynol i ystyriaeth ac yn benodol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. At hynny, tynnodd RD sylw at yr iaith a ddefnyddir yn y ddogfen, sy'n

cyfeirio at bobl fel bod yn 'agored i niwed', 'dan anfantais' ac 'ar y cyrion'. Mae pobl anabl eisiau cael gwared ar dermau o’r fath ac yn hytrach, canolbwyntio ar y rhwystrau y mae cymdeithas yn eu creu.

Soniodd RD am yr anghysondebau o ran y llythyron at bobl ddylai warchod eu hunain. Cafodd rhai pobl y llythyron, ond roeddent yn teimlo nad oedd angen iddynt warchod eu hunain, ac i’r gwrthwyneb. Dywedodd hefyd bod llawer o ofn a phryder ynghlwm â gorfod gwarchod eich hun, a chael eich ystyried yn berson sy’n agored i niwed.

O ran llacio’r cyfyngiadau symud, ymddengys bod y dull gweithredu cyfredol yn ffafrio cefnogi pobl ifanc a phobl heini i ddychwelyd i’r gwaith, ac yn parhau i warchod pobl hŷn a’r rheini sydd â chyflwr iechyd presennol. Mynegodd RD ei phryder y bydd y cyfyngiadau symud yn effeithio ar bobl anabl yn hirach nag unrhyw un arall, ac yn creu pryder pellach o ran pa mor gynaliadwy yw cadw pobl wedi’u hamddiffyn. Mae angen i'r mesurau newydd ddwyn namau gwahanol i ystyriaeth, a’r modd y mae pobl yn rhyngweithio â'r amgylchedd a chymdeithas yn gyffredinol.

Teimlai RD fod dull gofalus Llywodraeth Cymru o lacio’r cyfyngiadau symud yn rhoi amser i bobl fod yn rhan o’r broses gynllunio. Mae angen i bobl anabl chwarae rhan lawn yn y broses o lywio a dylanwadu ar bolisïau.

Mae Anabledd Cymru wedi bod yn lobïo ers tro i Lywodraeth Cymru ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith a pholisi Cymru, a dyma’r amser i fod wrthi’n gwneud hynny. Dylid sicrhau bod hawliau pobl anabl yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Gorffennodd RD trwy dynnu sylw at rai o'r meysydd gwaith sy’n gofyn am flaenoriaeth, wrth i Gymru lacio’r cyfyngiadau symud:

- adfer y dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- mynd i'r afael ag allgáu digidol
- mynediad at siopa
- sicrhau y gall pobl anabl weithio gartref.
- mae diweithdra yng Nghymru wedi dyblu – rhaid i gynlluniau cyflogaeth sy'n rhoi cefnogaeth i bobl ddychwelyd i'r gwaith gynnwys pobl anabl.
- gwneud yn siŵr bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu rhoi ar waith o ran trafnidiaeth, addysg, chwaraeon, hamdden, diwylliant a thwristiaeth – gan ddwyn profiadau bywyd pobl i ystyriaeth, a sut mae gwahanol namau yn rhyngweithio ag eraill.

Ychwanegodd RD y bydd y materion hefyd yn cael eu trafod yn y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, o dan gadeiryddiaeth Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a’r Phrif Chwip.

## 2. Taliad o £500 i weithwyr gofal – Rhian Davies, Anabledd Cymru.

Tynnodd RD sylw at y diffyg eglurder ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am daliad bonws o £500 i staff gofal. Mae Anabledd Cymru o'r farn y dylai cynorthwywyr personol sy'n cael eu recriwtio drwy daliadau uniongyrchol hefyd gael y taliad bonws, ac mae wedi codi'r mater gyda Llywodraeth Cymru. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn.

### 3. Effaith pandemig y coronafeirws ar bobl ag anableddau dysgu – Joe Powell, Pobl yn Gyntaf Cymru.

Rhoddodd JP wybod i'r Grŵp y bu'n gofyn i'w aelodau a'r bobl y mae'n eu cefnogi am eu profiadau o bandemig y coronafeirws.

Gofynnwyd 4 cwestiwn:

1. Pa effaith mae'r sefyllfa wedi'i chael ar y sefydliad a'r staff
2. Pa effaith mae'r sefyllfa wedi'i chael ar y bobl y maen nhw'n eu cefnogi
3. Pa strategaethau a gweithgareddau sydd wedi'u rhoi ar waith
4. Unrhyw faterion eraill yn ymwneud â phobl sy'n gwarchod eu hunain.
5. 

Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- teimlai'r rhan fwyaf o bobl yn ynysig ac yn unig
- rhai yn ei chael hi'n anodd cofio'r rheswm dros y cyfyngiadau symud
- pobl yn ceisio lladd eu hunain
- ymosodiadau ar weithiwyr cymorth
- diffyg eglurder ynghylch y taliad o £500
- profiadau cymysg o weithwyr cymorth, rhai yn mynd i mewn i gartrefi ac eraill ddim yn gwneud hynny
- anhawster cael mynediad at siopa ar-lein
- dryswch ynghylch y datganiadau gan Lywodraeth Cymru a San Steffan
- sôn am bobl yn datblygu sgiliau TG a sgiliau arwain newydd

Dywedodd JP nad oedd unrhyw beth sylweddol yn cael ei hysbysu o ran pobl sy'n gwarchod eu hunain. Bydd Pobl yn Gyntaf Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar bob cam o'r argyfwng, a chytunodd JP i'w rannu gyda'r grŵp.

Ychwanegodd fod yr adroddiad llawn ar gael ar eu gwefan.

### 4. Gwybodaeth ynghylch pobl sy'n gwarchod eu hunain rhag y feirws, a chael mynediad at wybodaeth – Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru.

Yn y lle cyntaf, rhoddodd ZR wybod i'r grŵp bod Anabledd Dysgu Cymru, Anabledd Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru, Fforwm Rhieni Cymru Gyfan a Mencap Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i ddechrau i amlinellu'r pryderon o ran pa mor anhygyrch yw'r llythyrau ynghylch gwarchod eich hun, a anfonir at bobl ag anableddau dysgu.

Tynnodd ZR sylw at rai o'r materion ategol a gyflwynwyd mewn llythyr ar y cyd at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Dim rhesymeg sy'n sail i'r rhai sy'n cael llythyr am warchod eu hunain a'r rhai nad ydynt yn ei gael, ac mae yna ddryswch ynghylch pwy sy'n agored i niwed a phwy ddylai fod yn gwarchod eu hunain, gyda gwahanol elfennau o gefnogaeth ar gyfer y naill gategori a'r llall.

- Nid yw rhai pobl sy'n rhieni i blant anabl wedi cael llythyr ynghylch gwarchod eu hunain, ac mae hynny'n peri problem benodol i rieni sy'n gweithio gan nad ydyn nhw'n gallu cael mynediad at rywfaint o'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig, na chymryd amser i ffwrdd o'r gwaith.

- Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu wedi symud i ffwrdd o'u cyfeiriad cofrestredig i aros gyda ffrindiau neu berthynas sy'n gallu eu cefnogi'n well yn ystod yr amser hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i hynny, nid ydynt yn gymwys i'r gefnogaeth a gynigir yn y llythyr ynghylch gwarchod eu hunain, fel siopa blaenoriaeth neu flychau bwyd gan awdurdodau lleol.

- Deall eich hawliau fel person ag anabledd dysgu os ydych chi'n byw gyda phobl eraill sy'n gwarchod eu hunain, a'r modd y mae hynny'n effeithio ar eich bywyd, yn enwedig mewn cartref grŵp, neu sefyllfa o fyw mewn tŷ â chymorth. Methu arfer eich hawliau oherwydd y bobl rydych chi'n byw gyda nhw.

- Cefnogi lles meddyliol yn ystod y 12 wythnos. Yr hyn sydd ar gael i bobl sy'n gwarchod eu hunain, a beth yw statws y rheini sy'n gwarchod eu hunain o ran cael mynediad cyflym at frechlynnau. Pan gynhyrchir brechlynnau, tybed a fydd pobl ag anabledd yn y grŵp blaenoriaeth ar gyfer cael eu brechu.

Daeth ZR â'r cyflwyniad i ben drwy roi gwybod i'r grŵp eu bod yn dal i aros am ateb i'r llythyr, ac am fersiwn EasyRead o'r llythyr sy'n rhoi gwybod i bobl am warchod eu hunain.

## 5. Sylwadau a chwestiynau.

Rhoddodd MI wybod ei fod wedi cael llawer o ohebiaeth gan bobl yn tynnu sylw at y problemau y maen nhw'n eu profi, er enghraifft pobl sydd wedi colli eu golwg sy'n cael trafferth cadw pellter cymdeithasol a chael mynediad at siopa ar-lein, a rhieni plant ag anghenion difrifol a chymhleth sy'n parhau i fod heb gefnogaeth, ac y gwrthodir mynediad at hybiau iddynt.

### 1. Pa awdurdodau lleol sydd wedi rhoi'r hawddfreintiau ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith yn ymarferol?

Ymatebodd RD: Nid oedd hi'n ymwybodol bod y wybodaeth ar gael. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru yn ei chanllawiau wedi'u haddasu ei bod am i awdurdodau lleol fynd cyn belled ag y bo modd i barhau i roi'r ddeddf ar waith. Cytunodd RD i ddarganfod a oes cynllun.

2. Mae prosiectau diweithdra yn wynebu heriau enfawr oherwydd bod y bobl anabl y gwnaethant eu cefnogi i mewn i fyd gwaith yn gorfod cystadlu i raddau mwy nag erioed. Mae’n bwysig bod y cynllun Mynediad i Waith yn atebol yn ystod y cyfnod o ddychwelyd i'r gwaith. Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, nid oedd y cynllun Mynediad i Waith wedi prosesu unrhyw geisiadau newydd ar gyfer pobl anabl ac mae'r adran gyfan wedi'i symud i ymdrin â cheisiadau am Gredydau Cynhwysol. Mae nifer o bobl sy’n cyflawni eu swyddi, ond nad ydynt yn cael eu cefnogi drwy'r grant.

Ymatebodd ZR: Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cynnal gwaith ar gyfer y prosiect Engage to Change, gan edrych ar sut olwg fydd ar fyd gwaith wrth i Gymru ddod allan o gyfnod Covid. Byddan nhw’n ysgrifennu at Ken Skates AS. Croesawodd ZR fewnbwn y Grŵp.

3. Mae RNIB a Chŵn Tywys Cymru yn galw am gyflwyno Cod Cwrteisi Coronafeirws i alluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol diogel.

Awgrymodd MI y dylid rhoi copi o'r ddogfen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr cynghorau.

4. Pryderon bod triniaethau canser yn cael eu gohirio, ac mae hynny’n arwain at fod pobl yn teimlo'n bryderus, ac yn creu ôl-groniad.

5. Pryderon a godwyd ynghylch yr effaith o ran iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaethau. Yn enwedig y rheini sydd wedi cael eu hannog i fyw'n annibynnol, ac sydd bellach wedi colli’r gallu i wneud hynny. Mae angen iddynt fagu eu hyder eto

6. Mae pryder y bydd y gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn cefnogi pobl yn eu cymunedau yn diflannu ar ôl y cyfyngiadau symud. Mae angen edrych ar ffyrdd o annog y gwirfoddolwyr i barhau.

Awgrymodd MI y dylai'r grŵp fynd ar drywydd hyn gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

7. Mae pobl â dyslecsia, dyspracsia neu ADHD yn aml yn hunangyflogedig, a gallant ei chael yn anodd hawlio cymorth ariannol a gallant fod ar ei hôl hi gyda gwaith papur. Mae pryder na fyddan nhw’n gallu hawlio cymorth heb gefnogaeth.

Ymatebodd ZR: Dywedodd fod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgyrch newydd yn ymwneud ag iechyd meddwl yng Nghymru yn ystod cyfnod Covid.

8. Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i gasglu profiadau rhieni â phlant anabl a sefydliadau

sy'n eu cefnogi, i helpu i lywio eu hymateb i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc mewn Addysg.

Mae MI yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg ar hyn o bryd. Cytunodd i gopïo Plant yng Nghymru yn yr e-bost.

9. Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i ymgorffori'r hawl i weithio gartref yn dilyn cyfnod y coronafeirws. Efallai bod hynny'n rhywbeth y gellid ei gyflawni yng Nghymru.

Ymatebodd RD – dylai gweithio gartref gael ei gynnwys o dan addasiadau rhesymol, ond mae'r ceisiadau hynny'n aml yn cael eu gwrthod. O ystyried y profiad torfol o weithio gartref ar yr adeg hon, bydd yn haws iddynt ddadlau dros hynny.

10. Mae cyfran fawr o blant anabl yn cael cefnogaeth un i un. Os bydd rhaid i staff barhau i gadw pellter diogel, sut fydd plant yn cael mynediad at addysg? Nid oes modd i bawb gael mynediad at addysg ar-lein. A oes perygl i Gymru ddilyn Lloegr a pheidio â sicrhau bod cefnogaeth ariannol yn gyfrifoldeb cyfreithiol?

6. Camau y cytunwyd arnynt:

- RD i geisio eglurder o ran pa awdurdodau lleol sydd wedi rhoi'r hawddfraint ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith, a gofyn a oes cynllun ar waith.
- cysylltu â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol i annog gwirfoddolwyr cymunedol i barhau ar ôl y cyfyngiadau symud.
- ysgrifennu i'r Adran Gwaith a Phensiynau i dynnu sylw at y pryderon ynghylch y broses Mynediad i Waith, gan sicrhau y bydd y gwasanaeth yn cefnogi pobl anabl yn y modd cywir, wrth i'r cyfyngiadau ar symud gael eu llacio yng Nghymru. ZR i gynnwys hynny hefyd yn ei llythyr at Ken Skates AS.

6. Y cyfarfod nesaf.

Disgwylir i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal cyn pen mis. Y dyddiad a'r amser i'w cadarnhau.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cynnwys cyflwyniad gan Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Phrif Chwip.

## 1. Croeso a chyflwyniadau.

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp ac agorodd y cyfarfod.

## 2. CYFLWYNIADAU: Profiadau pobl anabl yn ystod COVID-19.

### Andrea Gordon - Abertawe

Siaradodd Andrea am yr anawsterau y mae pobl sydd wedi colli eu golwg yn eu profi yn ystod y pandemig Covid-19. Mae cadw pellter cymdeithasol yn broblem yn arbennig ac mae'n destun pryder i bobl sydd wedi colli eu golwg, wrth iddynt ddechrau mynd o le i le. Er nad oes ateb syml, mae Andrea yn ymgyrchu i'r cyhoedd helpu trwy gyfathrebu ar lafar pryd bynnag y bo modd a byddai’n hoffi petai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r neges honno.

Mae Andrea hefyd wedi nodi cynnydd yn nifer y bobl sydd â nam ar eu golwg sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig a siaradodd am yr argyfwng sydd ar ddod i bobl y mae angen cymorth arnynt gan Swyddog Adsefydlu ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu golwg. Yn Abertawe, mae rhestr aros 12 mis ar gyfer asesiad yn barod, ac mae hyn yn cynyddu'n gyson.

O ran y mesurau newydd sy'n cael eu gwneud i'r amgylchedd adeiledig, pwysleisiodd Andrea fod angen cyfathrebu â phobl sydd wedi colli eu golwg ynghylch y newidiadau. Nid yw llinellau a saethau wedi'u paentio yn hygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg a, gan fod tafarndai a bwytai wedi ailagor bellach, bydd ardaloedd eistedd ar balmentydd yn beryglus i bobl oni bai eu bod wedi'u hamgylchynu gan rwystrau solet, yn hytrach na chonau neu dâp. Mae angen ystyriaethau i atal pobl anabl rhag bod y rhai olaf i ddod allan o’r cyfyngiadau symud.

### Sian Nicholas - Caerffili

Roedd Sian yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyhoeddiadau’r Gweinidogion yn defnyddio dehonglydd BSL yn eu cynadleddau i’r wasg am y coronafeirws. Fodd bynnag, roedd hi'n teimlo bod y negeseuon o Gymru ac o Loegr ar newyddion y BBC yn ddryslyd.

Dywedodd Sian hefyd nad yw staff trafnidiaeth gyhoeddus a theithwyr eraill wedi bod yn gwisgo mygydau, sy’n gwneud i’w phartner, sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith, deimlo'n anniogel.

Fel rhywun sy’n gweithio yn Tesco, mae Sian wedi bod yn teimlo'n ynysig iawn yn y gwaith ers i aelodau staff fod yn gwisgo mygydau wyneb. Mae’n ddarllenydd gwefusau, felly ni all gyfathrebu â phobl eraill yn ystod ei hegwyl. Mae Sian hefyd wedi wynebu gwahaniaethu fel

siopwr - nid oedd staff yn fodlon tynnu eu mygydau i alluogi Sian i ddarllen gwefusau ac maent wedi gwrthod ysgrifennu negeseuon ar bapur.

Rhannodd Sian ei phrofiad o apwyntiadau meddygon teulu a chael canlyniadau profion gwaed. Gan fod meddygfa teulu Sian wedi bod ar gau, mae angen i gleifion archebu presgripsiynau rheolaidd dros y ffôn. Mae Sian wedi colli ei chlyw, felly ni all wneud hyn. Dywedodd hefyd ei bod wedi gwneud dau gais am apwyntiad fideo ac ar y ddau achlysur, cysylltodd y meddyg teulu â hi dros y ffôn. Yr unig ateb oedd i'w merch gyfathrebu â'r meddyg teulu, gan adael Sian allan o'r broses. Yn ogystal, gwrthodwyd rhoi canlyniadau prawf gwaed Sian dros y ffôn gan ddefnyddio TypeTalk, sef gwasanaeth cyfnewid dilys.

Roedd Sian yn falch o ddweud ei bod wedi cael gwasanaeth rhagorol yn ei banc lleol lle'r oedd staff yn barod i dynnu eu mygydau i'w galluogi i ddarllen gwefusau gan ddilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol.

### Michelle Williams - Conwy

Fel aelod o Conwy Connect, dywedodd Michelle fod aelodau'r grŵp wedi bod yn teimlo'n ynysig iawn a bod ymdeimlad cyffredinol eu bod wedi cael eu hanghofio oherwydd y diffyg gwybodaeth a gafwyd.

### Cecilia Penny - Wrecsam

Dywedodd Cecelia wrth y grŵp nad yw hi wedi bod yn gwarchod ac nid yw wedi cael unrhyw gyfarwyddyd i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd hi'n teimlo bod y cyhoedd yn tybio bod pob person anabl wedi cael cyfarwyddyd i aros adref. Mae Cecelia yn defnyddio cadair olwyn ac mae ganddi gi tywys. Mae mynd allan wedi bod yn fwy anodd iddi oherwydd y mesurau newydd. Hefyd, nododd Cecelia ostyngiad yn y gefnogaeth y mae'n ei chael o dan Gynllun y Taliad Uniongyrchol. Fodd bynnag, mae ei chysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn dda.

### Adele Battaglia - Casnewydd

Ar hyn o bryd mae Adele yn y grŵp gwarchod ac mae'n teimlo y bydd dod allan o'r cyfyngiadau symud yn fwy heriol na mynd i mewn. Hoffai pe bai Llywodraeth Cymru yn creu cynllun i gefnogi'r rhai sy'n gwarchod i ddod allan o'r cyfyngiadau symud.

Mae gan Adele sglerosis ymledol ac fel arfer mae'n cael triniaeth bob 6 mis i arafu cynnydd yr afiechyd. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig, mae'r uned sglerosis ymledol wedi troi'n ward Covid-19 ac mae'r driniaeth wedi dod i ben dros dro.

Er bod Adele yn gwarchod, mae hi bellach yn gallu mynd allan am dro. Fodd bynnag, yn ei hardal, nid oes cyfleusterau toiled ar gael. Byddai'n annog cynghorau i agor toiledau i'r anabl o leiaf.

Cododd Adele fater a oedd yn effeithio ar rai pobl oedrannus ac anabl mewn archfarchnadoedd. Oherwydd y sefyllfa bresennol, gall ciwiau weithiau fod yn hirach na'r arfer. Ni all rhai pobl sefyll am gyfnodau hir a theimlai Adele y dylai archfarchnadoedd roi rhai mesurau ar waith, fel darparu cadeiriau neu roi blaenoriaeth ar gyfer y tiliau.

### 3. Ymateb Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog, i'r cyflwyniadau.

Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r holl siaradwyr am eu cyfraniadau.

Gwnaeth JH gydnabod yr heriau enfawr y mae pobl yn eu profi yn ystod y pandemig a phwysleisiodd bwysigrwydd gweithio gyda phobl anabl a sefydliadau cynrychiadol dan arweiniad pobl anabl er mwyn gwneud cynnydd. Dywedodd JH fod John Luxton, Cynghorydd Polisi Arbenigol Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd i lunio datganiad sy'n tynnu sylw at effaith Covid-19 ar bobl anabl. Bydd astudiaethau achos, sylwadau a thystiolaeth o'r cyfarfod heddiw yn cyfrannu at y ddogfen. Anogodd JH yr aelodau i anfon eu cyfraniadau at equalitybranch@gov.wales.

Dywedodd JH bod y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd wedi cynnal pum cyfarfod ers dechrau'r cyfyngiadau symud, gyda'r cyfarfod diwethaf yn cynnwys cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol am orchuddion wyneb. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried dosbarthu mygydau wyneb tryloyw o fewn y GIG ac yn gobeithio gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

Ymatebodd JH i'r sylwadau a godwyd yn ystod y cyflwyniadau blaenorol.

Mewn ymateb i gyflwyniad Andrea, myfyriodd JH ar yr anawsterau y mae pobl sydd wedi colli eu golwg wedi'u cael o ran cadw pellter cymdeithasol. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru bod angen i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ymgysylltu â phobl anabl. Dywedodd JH wrth y grŵp fod Rhian Davies o Anabledd Cymru wedi awgrymu sefydlu fforwm anabledd ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Roedd JH yn cefnogi hyn ac anogodd y Grŵp Trawsbleidiol i fynd ar drywydd y syniad.

Gwnaeth JH gydnabod y gall unrhyw newidiadau i'r amgylchedd ffisegol fod yn anodd i bobl sydd wedi colli eu golwg wrth i lwybrau ddod yn anghyfarwydd ac yn anodd eu rhagweld. Dywedodd wrth y grŵp am y canllawiau a luniwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, o'r enw, 'Creu mannau cyhoeddus mwy diogel: coronafeirws'. Cefnogodd JH hefyd yr awgrym ar gyfer 'Cod Cwrteisi Coronafeirws' a chytunodd i fynd ar drywydd y mater. Pwysleisiodd JH

bwysigrwydd tanategu popeth sy'n digwydd trwy ymrwymo i sicrhau nad yw'r adferiad yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb yng Nghymru.

Gan fyfyrio ar sylwadau Michelle, gwnaeth JH gydnabod y gall pobl deimlo'n ynysig ac ar wahân, a all ddigwydd o ganlyniad i ddiffyg mynediad at wybodaeth hygyrch. Dywedodd JH wrth y grŵp fod gan Lywodraeth Cymru grŵp Cyfathrebu Hygyrch erbyn hyn, sy'n gweithio ar faterion o'r fath. Bydd JH yn gofyn i'r grŵp gynnwys Michelle.

Roedd JH yn falch o glywed bod Cecelia wedi gallu darganfod beth sy'n digwydd o ran y pecynnau Gwasanaethau Cymdeithasol a sut maen nhw'n cael eu gweithredu. Ychwanegodd JH fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro'r cyfyngiadau yn ofalus iawn.

Mewn ymateb i gyflwyniad Sian, adleisiodd JH ei sylwadau ynghylch pwysigrwydd dehonglwyr BSL yng nghynadleddau i'r wasg Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd mai negeseuon Llywodraeth Cymru oedd y rhai pwysicaf i'w gwylio gan eu bod yn nodi'r rheoliadau a'r arweiniad ar gyfer Cymru. Diolchodd hefyd i Sian am rannu ei phryderon ynghylch gweithio a siopa. Bydd JH yn mynd â'i sylwadau at Lesley Griffiths AS.

Roedd JH yn bryderus iawn o glywed am y profiadau a gafwyd gyda'r meddyg teulu, gan ychwanegu y dylent fod yn gwneud galwadau fideo ac yn ymateb i wasanaethau trosglwyddo. Gwnaeth JH gydnabod fod angen i grwpiau cyfathrebu hygyrch edrych ar gyfathrebu hygyrch ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd trafnidiaeth, gwaith a siopa. Mae TUC Cymru ynghlwm â monitro'r hyn sy'n digwydd a bydd JH yn rhannu'r canfyddiadau gyda nhw.

Diolchodd JH i Adele am ei chyflwyniad ac am rannu pwyntiau pwysig am warchod. Awgrymodd JH y dylai'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd ystyried sylwadau Adele ynghylch dod allan o'r cyfyngiadau symud.

O ran toiledau cyhoeddus, rhoddodd JH wybod i'r grŵp mai'r awdurdodau lleol unigol sy'n penderfynu a ydynt yn agor eu toiledau, eu parciau ac yn y blaen. Fodd bynnag, roedd hi'n cydnabod pwysigrwydd ystyried hyn a sicrhau bod modd cael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen.

Cytunodd JH fod dychwelyd yr unedau sglerosis ymledol a pharhau â thriniaethau yn bwysig ac roedd yn siŵr y bydd Aelodau o'r Senedd yn mynd ar drywydd hyn.

I gloi, diolchodd JH i bawb a fu'n rhan o'r cyfarfod ac atgoffodd y grŵp bod ganddynt bob cyfle i ddylanwadu ar y broses adfer. Mae gan Lywodraeth Cymru system oleuadau traffig i fynd â Chymru yn raddol allan o'r cyfyngiadau symud, gan sicrhau bod cydbwysedd rhwng bod yn ofalus a galluogi pobl i weld teulu a ffrindiau, a dychwelyd i'r gwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno adferiad sy'n diwallu anghenion pobl Cymru a rhaid i

gydraddoldeb fod yn rhan flaenllaw ohono.

Gellir anfon cyfraniadau at yr adroddiad i'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd: equalitybranch@gov.wales.

## 4. Ymateb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r cyflwyniadau - Angharad Price.

Fel rheolydd y Ddeddf Cydraddoldeb, rhoddodd Angharad y wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwthio Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer eu holl benderfyniadau.
- Ysgrifennu i Gyngor Caerdydd pan oeddent yn gwneud eu penderfyniadau am yr amgylchedd adeiledig i'w hatgoffa am eu rhwymedigaethau i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac i ymgysylltu â sefydliadau pobl anabl ynghylch addasiadau rhesymol. Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i anfon llythyrau at bob awdurdod lleol i'w hatgoffa am eu rhwymedigaethau.
- Ysgrifennu at Gonsortiwm Manwerthu Prydain. Mae cwmni cyfreithiol yn Lloegr yn delio â thua 400 o hawliadau mewn perthynas â'r prif archfarchnadoedd yn peidio â gwneud addasiadau.
- Llunio canllawiau ar gyfer archfarchnadoedd, sefydliadau manwerthu a sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â manwerthu ynghylch sut maent yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a'u rhwymedigaethau fel darparwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r rhwymedigaethau newydd ynghylch cadw pellter cymdeithasol.
- Llunio eu canllawiau cyflogaeth eu hunain i sicrhau bod cyflogwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau yn ystod y sefyllfa bresennol a bod hyn yn cyfrannu at ganllawiau Llywodraeth Cymru i gyflogwyr i'w hatgoffa am asesiadau risg a'u rhwymedigaethau i weithwyr anabl.
- Maent yn bwriadu rhoi mwy o gyngor i'r rhai sydd wedi dioddef gwahaniaethu. Nid yw'r Gwasanaeth Cymorth Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, sy'n cynnig cefnogaeth gyda hawliadau gwahaniaethu, wedi cael llawer o alwadau o Gymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan.

## 5. Cwestiynau/sylwadau

Mae Marg McNeil, ynghyd â Trevor Palmer a Vin West, yn ymddiriedolwr ac yn sylfaenydd elusen dan arweiniad pobl anabl sydd wedi'i lleoli yng Nghymru o'r enw 'See Around Britain'. Ei phwrpas yw helpu pobl anabl i adael y cyfyngiadau symud yn ddiogel trwy wahodd dinasyddion a pherchnogion lleoliadau i gyflwyno ffotograffau a fideos a fydd yn helpu i roi hyder a sicrwydd i bobl y mae angen iddynt ymweld neu sy'n dymuno ymweld. Gofynnodd Marg i'r Cadeirydd am ganiatâd i ddarparu rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Cadeirydd.

Dywedodd Margaret Buchanan nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i bobl sy'n fyddar

ac yn ddall. Nid ydynt wedi cael unrhyw arweiniad na chyfarwyddiadau yn ystod y pandemig. Awgrymodd Margaret y dylai unrhyw un sydd wedi’i gofrestru'n fyddar a dall gael llythyr gwarchod yn awtomatig i sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar y Ddeddf Clefydau Prin ac mae pobl wedi cael eu hanwybyddu.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r aelodau am adroddiad Which? a ganfu fod dau o bob pump (40 y cant) o bobl sy'n agored i niwed yn sefyllfaol yn y DU – sef y rhai nad ydynt mewn perygl clinigol uwch o’r coronafeirws ond sy'n dal i fod angen help i gael gafael ar fwyd oherwydd bod ganddynt nam ar eu golwg neu fod ganddynt anawsterau dysgu – yn dweud eu bod yn cael anawsterau wrth gael gafael ar hanfodion. Yng Nghymru, tyfodd y nifer i bron hanner. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda’r grŵp.

Gofynnodd Angharad Jones pam na roddwyd mesurau ar waith yn gynt.

Dywedodd Zoe Richards wrth y grŵp y bydd adroddiad yn cael ei lunio ar sail y sylwadau a’r cwestiynau a geir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yno a daeth â’r cyfarfod i ben.

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen mis. Y dyddiad a’r amser i'w cadarnhau.

## 7. Camau i’w cymryd.

- Amlygu pwyntiau allweddol o'r cyfarfod mewn adroddiad i’r Dirprwy Weinidog.
- Cynnwys cyflwyniad gan See Around Britain yn y cyfarfod nesaf.
- Rhannu adroddiad Which? gyda’r aelodau.

## 1. Croeso a chyflwyniadau:

Croesawodd y Cadeirydd y grŵp ac agorodd y cyfarfod.

## 1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac yn wir. Cwblhawyd y camau gweithredu.

## 2. Cyflwyniadau:

### Ymgyrch i Gyflwyno Cyllidebau Iechyd Personol a Gofal Personol yng Nghymru - Rhys Bowler, Samantha Stickland.

Mae Rhys yn ymgyrchu i Lywodraeth Cymru gyflwyno Cyllideb Iechyd Bersonol i roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl dros y gofal maen nhw'n ei gael. Mae gan Rhys nychdod cyhyrol duchenne, mae'n defnyddio cadair olwyn ac yn gwbl ddibynnol ar beiriant anadlu. Mae angen gofal 24 awr arno, ond nid yw'n cael hynny eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gweithredu Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol. Mae Ymddiriedolaeth o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr, a benodir gan y sawl sy'n cael y gofal, reoli swm cytunedig o arian y GIG mewn ffordd sy'n rhoi'r unigolyn yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau. Nid yw Rhys yn credu y bydd hyn yn rhoi dewis a rheolaeth lwyr iddo a byddai'n well ganddo gael yr arian yn uniongyrchol, lle mae ganddo annibyniaeth lwyr, a dylai unigolion sy'n gallu gwneud hyn drostynt eu hunain gael hawl i annibyniaeth a bywyd normal fel pawb arall.

### See Around Britain (SAB) - Marg McNeil.

Siaradodd Marg am yr ap See Around Britain, a lansiwyd yn 2016. Dyluniwyd yr ap i roi gwybod i'r defnyddiwr a yw lleoliad yn ddiogel ac yn hygyrch i'w anghenion. Cyflawnir hyn yn bennaf ar ffurf lluniau, fideos a disgrifiadau. Mae croeso i unrhyw un gyfrannu at yr ap. Nid oes unrhyw ap arall yn darparu gwybodaeth o'r fath mewn un lle.
Mae SAB bellach yn ehangu'r ap i ymgorffori'r mesurau newydd sydd ar waith oherwydd Covid. Bydd yn helpu pobl sydd mewn perygl o gael eu heintio â Covid gan roi hyder iddynt ymweld â lleoliadau trwy gael gwybodaeth ymlaen llaw, sy'n eu galluogi i'w hasesu drostynt eu hunain.

Mae'r sylfaenwyr yn ceisio cael ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag ap See Around Britain a'i hyrwyddo.

Awgrymodd y Cadeirydd y gall ysgrifennu at Jane Hutt AS, gan anfon copi at Ken Skates ac Eluned Morgan hefyd, gyda'r nod o weithio ar draws adrannau. Hefyd, awgrymodd MI y gellir gwahodd Jane Hutt AS yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol i drafod hyn ac unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cyfarfod heddiw.

Cytunodd ZR i lunio ac anfon y llythyr.

Galwad am Gomisiynydd Anabledd Dysgu - Self-Advocacy Prestatyn.

Mae aelodau Self-Advocacy Prestatyn wedi cytuno i gynnig a gyflwynwyd gan Bobl yn Gyntaf Caerdydd ar gyfer penodi Comisiynydd Anabledd Dysgu.

Cyflwynwyd y cynnig i Gyngor Cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru y llynedd ac, ym mis Ionawr 2020, cytunwyd i ymgyrchu drosto. Mae aelodau Self-Advocacy Prestatyn o’r farn y byddai comisiynydd ar gyfer anableddau dysgu yn codi ei lais dros bobl ac yn amddiffyn eu hawliau. Fodd bynnag, roeddent yn awyddus i sicrhau na fydd yn canolbwyntio’n ormodol ar y de ac y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn parhau i wrando ar hunan-eiriolwyr.

Daeth Self-Advocacy Prestatyn i’r casgliadau a ganlyn:

- bydd angen i'r comisiynydd wrando ar hunan-eiriolwyr.
- dylai fod sefyllfa ar y cyd rhwng person ag anableddau dysgu a pherson arall.
- bydd angen i’r comisiynydd fod yn annibynnol.
- dylai’r comisiynydd gael ei gyfweld gan hunan-eiriolwyr.
- dylai’r comisiynydd fod wedi’i leoli yng ngogledd Cymru.

Pobl anabl a gwisgo mygydau - Rhian Davies.

Tynnodd Rhian sylw at y dryswch ynghylch gwisgo mygydau mewn mannau cyhoeddus caeedig. Mae pobl â chyflyrau iechyd penodol wedi'u heithrio rhag gwisgo mygydau wyneb ond mae pobl anabl wedi dweud eu bod wedi cael eu haflonyddu gan aelodau'r cyhoedd am beidio â'u gwisgo. Galwodd RD ar i Lywodraeth Cymru hysbysu'r cyhoedd yn well am hyn trwy gyfeirio'n glir at wybodaeth sy'n esbonio'r eithriadau’n ymwneud â gorchuddion wyneb. Mae Anabledd Cymru wedi llunio taflen ffeithiau a phoster a fydd ar gael ar eu gwefan.
Cwestiynau a sylwadau.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau a sylwadau.

- Mae bathodynnau a llinynnau gwddf ar gael i bobl ag anableddau cudd i’w gwisgo wrth ymweld â lleoliadau.

- Byddai WC yn cymeradwyo'r gefnogaeth i Gyllidebau Iechyd Personol yng Nghymru, gan y byddai'n galluogi pobl anabl i gael ystod eang o gymorth na ellir ei ariannu trwy wasanaethau iechyd neu gymdeithasol, fel therapi cerdd.

- Gofynnodd WC a fydd yr ap See Around Britain yn nodi'n benodol leoliadau sydd â chyfleusterau toiled Changing Places ac yn croesgyfeirio hyn â gwefan Changing Places.

  Ymatebodd MM: Pan cawn ymweld â lleoliadau eto, bydd ffotograffau yn cael eu tynnu o doiledau Changing Places, ynghyd â diffibrilwyr. Mae SAB yn gobeithio cysylltu â Changing Places a British Heart Foundation. Yn y cyfamser, gall defnyddwyr ddod o hyd i leoliadau sydd â thoiledau Changing Places gan ddefnyddio'r swyddogaeth chwilio.

- Adroddiadau am bobl sydd yn esempt rhag gwisgo mygydau yn cael eu gwrthod rhag mynd i mewn i siopau, hyd yn oed pan fyddant wedi darparu tystiolaeth.

- Gan ymateb i gyflwyniad Rhys, cytunodd VW â hyrwyddo byw'n annibynnol a byddai'n awgrymu bod y mater yn cael ei wthio ymlaen gan ddefnyddio'r mecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru yn nodi bod angen cydgynhyrchu cynlluniau cymorth a chytuno arnynt. Pan ysgrifennir y cynllun cymorth, mae'n gyfreithiol yn rhoi hawl i'r unigolyn ddefnyddio'r cymorth hwnnw'n llawn.

- Mae VW o blaid un comisiynydd ar gyfer yr holl anableddau, yn gweithio gyda'i gilydd yn hytrach na gwahanu anableddau.

- Roedd AB o blaid codi ymwybyddiaeth o eithriadau rhag gwisgo mwgwd.

- BO - mae pobl ag anableddau dysgu eisiau comisiynydd sydd ag anabledd dysgu i siarad ar eu rhan.

- RD - mae gwrthwynebiad diwylliannol i daliadau uniongyrchol, gyda chanran isel o bobl yn manteisio arnynt – tua 6 y cant o'r rhai sydd â phecynnau gofal cymdeithasol.

- RD - Mae Fforwm Anabledd Cymru yn llunio adroddiad ar effaith COVID-19 ar bobl anabl.

- RD - bydd Anabledd Cymru'n lansio ei faniffesto ar 3 Rhagfyr - bydd yn galw am ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn neddfwriaeth Cymru. Bydd trafodaeth yn cael ei chynnal yng nghynhadledd Anabledd Cymru ar 12 Tachwedd ynghylch a ddylid cael comisiynydd i orfodi'r gyfraith honno.

- RE - mae angen safonau ymarfer rheoli ar y sector cyhoeddus a gwleidyddion y gellir eu hasesu'n annibynnol.

### Unrhyw fater arall.

Roedd dwy eitem, sef un gan OW ac un gan BF. Oherwydd bod amser yn brin, penderfynodd OW y byddai'n rhannu ei fater ef ar ôl y cyfarfod.

### Asesiadau Taliadau Annibyniaeth Personol.

Hoffai BF i'r meini prawf PIP gael eu hadolygu i ganiatáu i gymhorthion ac offer fel Sat Nav gael eu cyfrif.

Dywedodd MI y bu llawer o bryderon ynghylch sut nad yw'r asesiadau'n gwneud addasiadau rhesymol yn ymwneud ag amgylchiadau penodol yr unigolyn. Mae gweinidogion llywodraeth y DU yn lansio adolygiad arall, a allai roi cyfle i'r grŵp gyflwyno ymateb. Awgrymodd MI y gallai'r grŵp ysgrifennu i ddarganfod pa ymchwiliadau pellach y mae llywodraeth y DU yn eu cynnal neu'n eu cynllunio ar hyn o bryd a cheisio cyfrannu atynt. Neu, gellir gwahodd Capita i gyfarfod yn y dyfodol.

## Camau i'w cymryd:

1. Ysgrifennu at Jane Hutt AS er mwyn:
   - gofyn am gefnogaeth y llywodraeth i'r ap See Around Britain.
   - gofyn am farn y llywodraeth am gomisiynydd anabledd/anabledd dysgu.
   - ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y materion hyn a materion eraill a godwyd yn y cyfarfod heddiw.
   - rhoi gwybod iddi am gyflwyniad Rhys a cheisio trefnu cyfarfod gyda Rhys.
2. Bydd Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru yn edrych ar sut y gall y Ddeddf gefnogi achos Rhys.
3. VW i anfon copi o lythyr Albert Heaney at Rhys.
4. Ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ddarganfod pa ymchwiliadau pellach y mae'n eu cynnal neu ysgrifennu at Capita a'u gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.

## Dyddiad y cyfarfod nesaf.

I'w gadarnhau.

# Datganiad Ariannol Blynyddol

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

## Adroddiad ar gyllid ar gyfer 2020

Derbyniodd Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru (WDRG), y mae ei aelodaeth yn cynnwys **Cyngor Cymru i Bobl Fyddar; Anabledd Cymru; Cyngor Cymru i'r Deillion; Mind Cymru; Anabledd Dysgu Cymru**, Gronfa Adeiladu Capasiti Partneriaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) o £3,500 ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r grant yn cefnogi cyrff cysylltiedig WDRG i gyfarfod ac adrodd ar nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd. Mae WDRG yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gosod yr agenda ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol. Roedd tri chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd ar gyfer y cyfnod hwn.

**Gwariant y Grŵp Trawsbleidiol:**

| | |
|---|---|
| Palanteipydd | £210.00 |
| Dehonglwr | £150.00 |
| | |
| Cyfanswm | £360.00 |

Cafodd y gwariant hwn ei gwmpasu gan bob un o'r pum aelod o'r WDRG o'u Cronfa Adeiladu Capasiti a ddyrannwyd.

**Cyfraniadau mewn nwyddau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymru i'r Deillion yn cymryd cofnodion | £600.00 |
| Cymorth ysgrifenyddiaeth a ddarparwyd gan Anabledd Dysgu Cymru | £1,480.00 |
| | |
| Cyfanswm | £ 2,080.00 |